Cyfle am Ddatblygiad Staff (Di-dâl)

Teitl y cyfle:	Cysylltwr
Adran/Pwnc:	Gwasanaethau Myfyrwyr
Oriau gwaith:	Hyblyg, yn ôl y gofyn (nid oes rhaid iddo fod yn ddiwrnod/amser penodol)
Hyd:	Ymrwymiad o 2 dymor o leiaf
Lleoliad:	Hyblyg, ar draws campysau'r Drindod Dewi Sant – eich man gweithio arferol

Cyflwyniad	Er mwyn cyflawni amcanion allweddol prosiect CYSYLLTU, mae'r Drindod Dewi Sant yn awyddus i recriwtio tîm o staff ymroddedig sy'n barod i gael eu hyfforddi i gynorthwyo myfyrwyr wedi'u hynysu ac wedi ymddieithrio sydd â risg o hunan-barch isel, llesiant gwael a thynnu'n ôl o'r brifysgol.
Gwybodaeth gefndir	Mae CCAUC wedi dyrannu arian i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe ar gyfer y rhaglen CYSYLLTU/CONNECT. Nod CYSYLLTU yw hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ac iach i ganiatáu i fyfyrwyr ffynnu a llwyddo tra maent yn y brifysgol. Nod y rhaglen yw darparu ymyriadau cyfannol ar draws y sefydliad sy'n ymwneud â llesiant myfyrwyr gan ddefnyddio rhwydwaith o gysylltwyr.
Prif bwrpas	1. Lleihau ynysu cymdeithasol, hunan-barch isel, iechyd meddwl gwael a'r risg o dynnu'n ôl o'r brifysgol. 2. Hyrwyddo ymddygiadau a dewisiadau cadarnhaol sy'n cefnogi iechyd meddwl da ymhlith myfyrwyr. 3. Cynorthwyo myfyrwyr i gael mynediad i wasanaethau cymorth a gweithgareddau cymdeithasol y brifysgol a'r gymuned.
Prif dasgau	1. Cysylltu â myfyrwyr sydd wedi'u hynysu neu wedi ymddieithrio a chynnig cymorth iddynt. 2. Annog myfyrwyr i gysylltu â'i gilydd a chefnogi'i gilydd. 3. Rhannu negeseuon, ymgyrchoedd a gwybodaeth gadarnhaol am ddigwyddiadau'r campws. Er enghraifft, dosbarthu taflenni neu rannu gwybodaeth ar ddechrau/diwedd darlith neu seminar. 4. Cyfeirio myfyrwyr at weithgareddau neu wasanaethau cymorth yn ôl yr angen. 5. Darganfod pa gymorth llesiant ychwanegol byddai myfyrwyr yn ei groesawu. 6. Mynychu sesiynau goruchwylio grwpiau rheolaidd i adfyfyrio ar eich rôl. 7. Adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Cydlynydd Prosiect i helpu i fonitro a gwerthuso'r prosiect. 8. Gweithredu fel pwynt cymorth i Gysylltwyr myfyrwyr.
Manyleb yr Unigolyn	• Byddwch eisoes yn gweithio mewn amgylchedd sy'n ymwneud â myfyrwyr neu'n treulio cryn dipyn o'ch diwrnod gwaith ymhlith myfyrwyr ar y campws. • Cymeriad cynnes, agos-atoch ac yn gallu ymgysylltu'n dda â myfyrwyr. • Yn dda am adnabod myfyrwyr a allai fod wedi'u hynysu neu'n unig a chynnig cymorth iddynt. • Hapus i gysylltu â myfyrwyr a dechrau sgwrs am eu llesiant. • Dealltwriaeth sylfaenol o lesiant (rhoddir hyfforddiant llawn). • Parodrwydd i hyrwyddo gweithdai, digwyddiadau, gweithgareddau, cymdeithasau, cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd eraill ar draws y Brifysgol ac yn y gymuned.

	• Parodrwydd i gofnodi gwybodaeth sylfaenol am dasgau a ymgymerwyd. • Adnabod terfynau personol a phroffesiynol, terfynau'r prosiect a phryd i ofyn am gymorth ychwanegol • Lefel uchel o flaengaredd a'r gallu i weithio'n annibynnol.
Hyfforddiant Gorfodol	• Dau ddiwrnod llawn o Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Ieuenctid/Oedolion (i'r rhai sydd heb ymgymryd â'r hyfforddiant hwn yn y 3 blynedd ddiwethaf. • Hyfforddiant Terfynau. • Rhaid cwblhau'r hyfforddiant cyn dechrau eich rôl fel "Cysylltwr".